**EITEM AR YR AGENDA: 11**

**PWYLLGOR SAFONAU**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**29 Ionawr 2014**

**ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU I'R AWDURDOD TÂN AC ACHUB**

**Adroddiad gan Colin Everett, Clerc i'r Awdurdod**

## Diben yr Adroddiad

1 Gofynnir i Aelodau gymeradwyo'r adroddiad atodol a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod yn ei gyfarfod ym mis Mawrth.

## Cefndir

2 Fel mater o lywodraeth gorfforaethol dda mae'r Pwyllgor yn darparu'r Awdurdod Tân ac Achub gydag adroddiad blynyddol o'i weithgarwch yn ystod pob blwyddyn ariannol.

3 Mae degfed Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor ynghlwm er ystyriaeth yr Aelodau.

## Argymhelliad

4 Gofynnir i Aelodau nodi gymeradwyo adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau i'w gyflwyno i'r cyfarfod Awdurdod ym mis Mawrth.

# DRAFFT

## ADRODDIAD BLYNYDDOL PWYLLGOR SAFONAU AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**Cefndir**

Dyma ddegfed adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau i'r Awdurdod Tân ac Achub ac mae'n cynnwys y cyfnod o fis Ebrill 2013 hyd fis Mawrth 2014. Mae deddfwriaethau'n gofyn i'r Pwyllgor Safonau gwrdd o leiaf unwaith y flwyddyn.

Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Safonau yn darparu cylch gwaith i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan aelodau'r Awdurdod a goruchwylio polisi chwythu'r chwiban ar gyfer cwynion yn erbyn yr Awdurdod. Hefyd, pan fo deddf yn caniatáu, i dderbyn adroddiadau a chwynion am aelodau, gwneud neu oruchwylio archwiliadau a gwneud argymhellion i'r awdurdod.

**Aelodaeth**

Daeth cyfnodau swydd Jane Eyton-Jones a Celia Blomeley ar y pwyllgor i ben ar 31 Rhagfyr 2013. Yn dilyn dyfodiad Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygio) 2006, mae modd ailbenodi aelod annibynnol am gyfanswm o un cyfnod pellach, hyd at bedair blynedd. Nid oes gofyniad cyfreithiol i hysbysebu lle gwag os mai'r bwriad yw ailbenodi.

Bu i'r ddwy gadarnhau eu bod yn fodlon cael eu hail-benodi. Yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 16 Rhagfyr 2013 cytunodd yr Aelodau i'r ail-benodiadau.

Felly, mae'r aelodaeth bresennol fel a ganlyn:

<u>Aelodau annibynnol</u>
Celia Blomeley 01/01/2014 - 31/12/17
Jane A Eyton-Jones 01/01/2014 - 31/12/17
David Morris 01/09/10 - 31/08/14
Antony P Young 01/04/12 - 30/03/16

<u>Aelodau Awdurdod Tân ac Achub</u>
Y Cynghorydd Brian Dunn (18/06/12 ymlaen)
Y Cynghorydd Jim G Evans (18/06/12 ymlaen)

Hefyd yn yr adroddiad i'r Awdurdod, gofynnwyd am awdurdod dirprwyedig i'r Cadeirydd, Clerc a'r Prif Swyddog Tân i benodi aelod lleyg i'r panel cynghori ar gyfer unrhyw benodiadau i'r Pwyllgor Safonau yn y dyfodol fel y cyfyd yr angen. Cytunodd aelodau'r Awdurdod i'r awdurdod dirprwyedig hyn.

**Presenoldeb a Materion**

Cyfarfu'r Pwyllgor Safonau ar 10fed Gorffennaf 2013 ac roedd yr aelodau canlynol yn bresennol:

Jane A Eyton-Jones (Cadeirydd)
David Morris (Dirprwy Gadeirydd
Celia Blomeley
Antony P Young
Y Cynghorydd Jim Evans, Cyngor Sir Ynys Môn

Yn y cyfarfod hwnnw, ail-benodwyd Jane A Eyton-Jones yn Gadeirydd phenodwyd David Morris yn Ddirprwy Gadeirydd y Pwyllgor. Trafodwyd y newidiadau arfaethedig i'r cod ymddygiad, yswiriant indemniad, system datrys yn lleol a chyhoeddi cofrestr buddiannau aelodau arlein. Nodwyd hefyd fod yr Awdurdod wedi cymeradwyo protocol cyfryngau cymdeithasol.

Cynhaliwyd cyfarfod arall ar 29ain Ionawr 2014 ac roedd yr aelodau canlynol yn bresennol: *I'W GADARNHAU WEDI'R CYFARFOD*

*Jane A Eyton-Jones (Cadeirydd)*
*David Morris (Dirprwy Gadeirydd)*
*Celia Blomeley*
*Antony P Young*
*Y Cynghorydd Jim Evans, Cyngor Sir Ynys Môn*
*Y Cynghorydd Brian Dunn, Cyngor Sir y Fflint*

Cyflwynwyd dwy ddogfen sef protocol berthynas rhwng aelodau / swyddogion a phrotocol datrys yn lleol ac yn dilyn trafodaeth penderfynodd yr aelodau argymell y dogfennau i'r Panel Gweithredol i'w hystyried. Diweddarwyd yr aelodau ynghylch y sefyllfa o yswiriant indemniad yr Awdurdod, cyhoeddi buddiannau aelodau ar-lein a'r newidiadau arfaethedig i'r cod ymddygiad.

**Cwynion yn erbyn aelodau o'r Awdurdod Tân ac Achub**

Yn ystod cyfnod yr adroddiad, ni wnaed unrhyw gwynion yn erbyn cynghorwyr yn eu rolau fel aelodau o'r Awdurdod Tân ac Achub. Felly, ni chyfeiriwyd unrhyw faterion i'r Pwyllgor eu harchwilio neu benderfynu.

## Goblygiadau Ariannol

Mae'r gyllideb ar gyfer y Pwyllgor Safonau yn dod o dan bennawd gwasanaethau pwyllgorau sydd ar gyfer holl gostau'r Awdurdod. Yn dilyn cymeradwyo cynllun cydnabyddiaeth ariannol yr aelodau ar 18fed Mehefin 2012, gall yr aelodau annibynnol erbyn hyn hawliau cydnabyddiaeth ariannol yn seiliedig ar gyfarfodydd a digwyddiadau a fynychir. Hyd yn hyn, ni wnaed unrhyw hawliadau. Talwyd cyfanswm o £33.80 o lwfansau teithio i aelodau annibynnol.

## Casgliad

Mae'r Pwyllgor Safonau'n argymell fod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn nodi ei adroddiad.